## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 20 Mehefin 2002

## Cynigion a gyflwynwyd ar 13 Mehefin 2002

Dadl Fer

**NDM1082 Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Yr Argyfwng yn ein Cartrefi Gofal

Dadl Plaid Leiafrifol

**NDM1083 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ailddatgan ei ymrwymiad i gefnogi gwasanaethau iechyd arbenigol i blant yng Nghymru, a ddylai fod ar gael drwy Gymru gyfan ac a ddylai adlewyrchu anghenion y claf.

2. Yn condemnio'r argymhelliad yn adroddiad Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i symud llawdriniaeth nerfol pediatrig o Abertawe i Gaerdydd.

3. Yn cefnogi'r gwaith o ehangu a datblygu Canolfannau Rhagoriaeth a sefydliadau hyfforddi a fydd yn atgyfnerthu Ysgolion Meddygol Clinigol yng Nghymru.

Mae copi o adroddiad Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar gael yn llyfrgell y Cynulliad.

**NDM1084 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu sefydlu'r Comisiwn ar Bwerau'r Cynulliad a Threfniadau Etholiadol;

2. Yn cymeradwyo cylch gwaith y Comisiwn, a e-bostiwyd at Aelodau ar 13 Mehefin 2002;

3. Yn edrych ymlaen at benodi Aelodau'r Comisiwn ym mis Gorffennaf ac at ddatblygiad ei waith maes o law.

**NDM1085 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 23.10

Yn cymeradwyo *The Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food & Feeding Stuffs) (Amendment) Regulations 2002* [drafft], y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2002.